# Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Isadeiledd - tystiolaeth ysgrifenedig ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

## CYFLWYNIAD

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'r 22 Cyngor yng Nghymru'n aelodau o CLILC ac mae'r 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

2. Mae CLILC yn credu fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol. Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u Cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Drwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

3. Prif nod y Gymdeithas yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru. Mae hyn yn golygu:
    - Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr Cynghorau
    - Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
    - Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
    - Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
    - Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
    - Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol.

## Pwyntiau Cyffredinol a Sylwadau

4. Rydym yn cefnogi'r ddeddfwriaeth newydd sy'n diweddaru Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, i reoli'r 2,573 o domennydd glo a dros 20,000 o domennydd

nad ydynt yn domennydd glo yng Nghymru a chynyddu diogelwch y cyhoedd a rheolaeth dros reoli tomennydd mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir.

5. Mae'r Bil newydd yn cynnig ystod o newidiadau allweddol, a bydd ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar rai o'r rhain:

6. **Creu Awdurdod newydd** - mae CLlLC yn croesawu'r dull cyson a chydlynedig y byddai'r Awdurdod newydd yn ei gyflwyno wrth oruchwylio a rheoli tomennydd mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir. O ystyried nifer y tomennydd yng Nghymru a materion cysylltiedig, mae'n bwysig bod gan Gymru ei gorff ei hun, sy'n atebol i Lywodraeth Cymru. Er mae dwy agwedd bwysig sydd angen eu trin:

   **a.** Costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r awdurdod newydd a chostau rhedeg y dyfodol. O ystyried y pwysau ar gyllidebau llywodraeth leol (a sectorau cyhoeddus eraill), bydd yn bwysig datblygu'r awdurdod newydd mewn ffordd cost effeithiol nad yw'n effeithio ar gyllid sydd ar gael i Gynghorau. Fel rhan o'r broses ar gyfer sefydlu'r corff newydd gellir edrych ar y posibilrwydd ar gyfer rhannu swyddogaethau cefn swyddfa gydag asiantaethau sy'n bodoli.

   **b.** Arbenigedd llywodraeth leol yn disbyddu - disgwylir i'r Awdurdod newydd fod angen tua 80 gweithiwr gyda thua 30% yn rhai technegol, arbenigol yn y maes. I osgoi colli arbenigedd a chapasiti o lywodraeth leol bydd yn bwysig bod cyfraddau tâl ar gyfer swyddi yn y corff newydd yn gymharol â'r rhai mewn llywodraeth leol, gan osgoi cystadleuaeth a phwysau cynyddol ar gyflogau sy'n rhaid eu cynnig. Colli staff ac anhawster cael rhywun yn eu lle yn creu ystod o broblemau i Gynghorau i reoli tomennydd sy'n berchen i'r Cyngor a gorfodi ble'n berthnasol.

7. **Caniatáu yn fwy effeithiol i awdurdodau lleol wneud gwaith ar y tomennydd ac adennill costau gan dirfeddianwyr** – croesawir y pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol ond, gan adlewyrchu'r pwynt uchod gellir ond eu defnyddio'n effeithiol os oes capasiti ac arbenigedd. Yn hanesyddol ac mewn meysydd eraill heblaw diogelwch tomennydd glo (e.e. draenio tir) mae adennill costau gan dirfeddianwyr wedi bod yn her i awdurdodau lleol ac mae costau ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â brwydrau cyfreithiol posib yn creu rhwystr i ddull mwy rhagweithiol o ran gorfodi. Bydd yn bwysig bod y cynigion newydd o gymorth wrth ganfod ffyrdd o liniaru hyn.

8. Er mai'r Awdurdod newydd fydd â'r mwyafrif o gyfrifoldebau, bydd gan Gynghorau, fel tirfeddianwyr, ddyletswydd i reoli eu hystâd eu hunain gyda chynnydd disgwyliedig mewn costau refeniw a chyfalaf. Er bod LlC yn darparu cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol ar hyn o bryd ar gyfer cynnal ac uwchraddio tomennydd glo nas defnyddir, bydd yn bwysig bod gan Gynghorau yr arian refeniw i reoli'r cyfrifoldebau newydd.

9. Mae’r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio tuag at gyrraedd ymrwymiadau sero net 2030 a byddai gwaharddiad arfaethedig Llywodraeth y DU ar fwyngloddi o gymorth mawr wrth gefnogi hyn a throsglwyddiad i ynni glân. Ni fyddai’r gwaharddiad yn cynnwys ail-fwyngloddio tomennydd glo ac mae’r ddeddfwriaeth newydd yn hyrwyddo adfer tomennydd glo gan gynnwys cael gwared â’r glo a gwaith cloddio fel ateb i atal ansefydlogrwydd tomennydd glo yn barhaol yn y dyfodol. Atal y posibilrwydd anfwriadol i’r Bil annog diwydiant sy’n canolbwyntio ar ‘ail-fwyngloddio’ tomennydd glo nas defnyddir wrth ddatgan bwriad i atal ansefydlogrwydd y dyfodol, gallai gwaith ar y Bil ystyried a fyddai darpariaeth sy’n gwahardd echdynnu glo ar gyfer budd masnachol o domennydd glo nas defnyddir yn briodol.

10. Hefyd, byddai’n fuddiol cyflwyno cyfundrefn gynllunio yn debyg i reoliadau COMAH 2015. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar berchnogion safle i baratoi cynllun ‘mewnol’ a fyddai’n nodi pwy y mae angen eu ffonio os caiff symudiad ei ganfod, yr ardal bosibl a fyddai’n cael ei effeithio gan lithriad a chamau i’w cymryd gan y perchnogion os bydd argyfwng. Yna gellir cysylltu hyn â chynllun aml-asiantaeth ‘allanol’ o ran sut y bydd sefydliadau sy’n ymateb yn derbyn galwadau, sut y byddai’r rhain yn cael eu rhaeadru, y camau i’w cymryd, llwybrau gwacau, rhybuddio a hysbysu’r cyhoedd a lles y rhai sydd wedi’u heffeithio.

11. Bu i dirlithriad Tylorstown hefyd amlygu ystod o faterion o ran ymatebion brys a sut maent yn ymwneud â gofynion rheoleiddio. Mae LIC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Adfer Mwyngloddio a CLlLC wedi bod yn gweithio ar Femorandwm o Ddealltwriaeth posib i geisio canfod atebion, ond mae anhyblygrwydd y system reoleiddio yn ei gwneud yn anodd iawn. Mae’n werth nodi fod newid hinsawdd ond yn debygol o gynyddu risgiau a chynyddu effeithiau ar domennydd glo nas defnyddir ac mae angen i ni gael system reoleiddio sy’n addas ar gyfer heriau sy’n gysylltiedig â newid hinsawdd.

12. Yn olaf, mae’n werth nodi fod rhai Cynghorau (megis RCT a Chastell-nedd Port Talbot) bob amser wedi bod yn rhagweithiol wrth reoli tomennydd glo nas defnyddir o dan eu perchnogaeth ac eisoes wedi bod yn datblygu cynlluniau ymateb mewn partneriaeth ag eraill. Hoffem dynnu sylw’r Pwyllgor at hyn ac amlygu hyn fel arfer da.

---

**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â**

Jean-Francois Dulong, Swyddog Polisi Newid Hinsawdd
jean-francois.dulong@WLGA.GOV.UK
Ffôn: 07436 034914

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru